Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Martin Sant
Hillside
Caerffili
CF83 1UW

06/07/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mehefin 2026

Diolch am eich cymorth â'r trefniadau ar gyfer yr ymweliad interim â'r ysgol ar 9 a 10 Mehefin. Gwerthfawrogon ni'r cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion i drafod gwaith yr ysgol ar wella'i dulliau gwerthuso a llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gyfarfod â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â sampl o wersi ar draws y cwricwlwm i weld disgyblion a staff yn gwneud eu gwaith.
- Cynnal arsylwadau gwersi a gweithgareddau craffu ar waith ochr yn ochr ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol.
- Siarad ag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am eich gwaith gwella a'ch strategaethau i wella llythrennedd.
- Cyfarfod â grŵp o athrawon i drafod eu profiadau yn yr ysgol a sut maent yn bwriadu cefnogi medrau llythrennedd disgyblion.

## Ffocws yr ymweliad

### Pa mor fanwl gywir a thrylwyr yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol?

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn ddefnyddiol trafod sut mae arweinwyr yn anelu at gryfhau prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol. Mae hyn wedi cynnwys darparu dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr i helpu datblygu dealltwriaeth ar y cyd o rai o egwyddorion allweddol gwerthuso a gwella.

Roedd yn ddiddorol clywed sut mae arweinwyr ar bob lefel yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd, sy'n eu galluogi i gasglu tystiolaeth uniongyrchol

defnyddiol. Roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae'r ysgol yn bwriadu ennyn ymgysylltiad cydlynwyr medrau yn fwy yn y prosesau hun er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella ym medrau disgyblion. Pan gyfarfuom ag arweinwyr canol, dywedom wrthyn ni eu bod yn gwerthfawrogi'r ymagwedd gydweithredol at werthuso a gwella, sydd, yn eu barn nhw, yn dechrau eu cynorthwyo i ddatblygu trosolwg eang o gryfderau a meysydd i'w gwella yn y meysydd y maent yn eu harwain. Rydym yn cytuno â barn yr ysgol nad yw gwerthuso bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith a gaiff addysgu ar wybodaeth a medrau disgyblion.

Rydym yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut gallwch chi gryfhau prosesau gwerthuso i ganolbwyntio ar yr effaith a gaiff darpariaeth ar gynnydd disgyblion yn eu gwybodaeth a'u medrau?
- Sut gallwch chi gynorthwyo arweinwyr ar bob lefel i fod yn fwy cywir yn eu gwerthusiadau o ddysgu ac addysgu, er mwyn i chi allu cynllunio'n fwy manwl gywir ar gyfer gwelliant?

## Pa mor dda y mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad cynyddol medrau llythrennedd disgyblion?

Roedd yn ddefnyddiol clywed sut mae'r ysgol wedi dechrau ystyried sut i gryfhau ei dull o ddatblygu llythrennedd disgyblion. Mae arweinwyr wedi ystyried sut i godi proffil darllen ar draws yr ysgol ac wedi dechrau rhoi gwahanol ddulliau ar waith i annog disgyblion i ddarllen er pleser. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyno sesiynau darllen yn ystod amser dosbarth a gwersi Saesneg, cynyddu'r defnydd o lyfrgell yr ysgol ac ymweliadau â gwyliau llenyddol cenedlaethol.

Esboniodd arweinwyr sut maent yn dechrau darparu dysgu proffesiynol ac adnoddau ar gyfer staff i helpu gwella medrau darllen, ysgrifennu a siarad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys cynnig cyfleoedd i rannu arfer i gefnogi cynllunio athrawon a gwella medrau staff mewn gwahanol ddulliau i gefnogi medrau darllen disgyblion. Roedd yn ddiddorol clywed sut y gwnaed mireiniadau i brosesau hunanwerthuso'r ysgol ar gyfer llythrennedd. Rydym yn cytuno y gellid mireinio cynllunio gwelliant a dysgu proffesiynol ymhellach trwy ddefnyddio canfyddiadau o dystiolaeth uniongyrchol yn fwy manwl gywir.

Rydym yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Pa mor dda mae arweinwyr yn blaenoriaethu agweddau ar lythrennedd sydd angen eu gwella fwyaf?
- Pa mor dda mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i ddatblygu medrau darllen uwch disgyblion ar draws y cwricwlwm?

Diolch am y croeso, a gwerthfawrogodd y tîm y ddeialog broffesiynol gyda'r ysgol yn ystod yr ymweliad. Diolch eto am roi o'ch amser i gynllunio a threfnu'r ymweliad hwn.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/st-martin-school-cy/

Yn gywir

**Lowri Jones**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro